Llywodraeth Cymru

# Cyd-dynnu, nid tynnu'n groes: Rhaid i Gymru weithredu

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Tachwedd 2025

Yn 2025 cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Ymchwiliad i Gydlyniant Cymdeithasol.

Ar 9 Hydref cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, **'Cyd-dynnu, nid tynnu'n groes: Rhaid i Gymru weithredu'**, gan wneud pedwar argymhelliad i Lywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... **3**

2. Argymhellion .......... **4**

Argymhelliad 1 .......... 4

Argymhelliad 2 .......... 6

Argymhelliad 3 .......... 7

Argymhelliad 4 .......... 9

3. Casgliadau .......... **10**

# 1. Cyflwyniad

Rwyf am ddiolch i aelodau Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd am eu gwaith yn archwilio'r materion allweddol a fydd yn effeithio ar gydlyniant cymdeithasol yng Nghymru, ynghyd â'r cyfleoedd a'r rhwystrau i gefnogi cydlyniant cymdeithasol.

Yn fy natganiad llafar, *Mae Casineb yn Brifo Cymru*, ar 14 Hydref, rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ar y camau yr oeddwn am eu cymryd ar unwaith i weithredu Argymhelliad 1, ac am y cadeirydd a benodwyd gennyf ar gyfer y Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol. Mae rhagor o fanylion am ein hymateb i'r argymhelliad hwn wedi'u nodi isod.

Roeddwn yn falch bod eich Pwyllgor wedi tynnu sylw at y sylfeini cadarn i gydlyniant y mae Llywodraeth Cymru, a phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi'u hadeiladu. Mae argymhelliad y Pwyllgor ynghylch cyllido ein Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn y tymor hir yn gydnabyddiaeth i'w chroesawu o'r gwaith pwysig y mae'r fenter hon yn ei gyflawni, ynghyd â gwerth ein partneriaeth gyda llywodraeth leol ar y mater hwn.

Mae ein dull o sicrhau cydlyniant yn dibynnu ar fanteisio'n effeithiol ar fewnwelediad ac adnoddau'r holl bartneriaid, ac felly rwy'n gwerthfawrogi'n fawr yr argymhelliad i ddwysáu'r gwaith partneriaeth hwnnw.

Nid yw o fewn ein gallu i fynd i'r afael yn llawn â'r bygythiadau i gydlyniant sy'n dod i'r amlwg, ond rydym wedi ymrwymo i ddangos arweinyddiaeth i helpu cymunedau i sefyll gyda'i gilydd a gwrthod rhaniadau a chasineb.

# 2. Argymhellion

## Argymhelliad 1

*"Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol i lunio set o gamau gweithredu i'w cyflawni ar unwaith, yn y tymor canolig ac yn y tymor hir. Dylai'r grŵp ddwyn ynghyd gynrychiolwyr o lywodraeth leol, yr heddlu, timau cydlyniant, y trydydd sector, y Bartneriaeth Mewnfudo Strategol a'r rhai sydd â phrofiad bywyd i ddatblygu'r camau gweithredu hynny. Rydym yn awgrymu y dylai'r gwaith hwn adlewyrchu'r dull gweithredu ar unwaith a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru wrth ymdrin â'r argyfwng costau byw. Mae'n anodd gorbwysleisio brys y gwaith hwn, ac rydym yn disgwyl i'r llywodraeth roi'r argymhelliad hwn ar waith yn ddi-oed. Dylai'r Grŵp Arbenigol fod wedi'i sefydlu erbyn canol mis Tachwedd a dylai gyflwyno adroddiad cyn diwedd y flwyddyn. Dylai gwaith y Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol gynnwys:*

- *Datblygu dogfen egwyddorion arweiniol cenedlaethol cyffredinol ar gyfer cydlyniant cymdeithasol, yn debyg i '10 egwyddor' Cenedl Noddfa.*

- *Mabwysiadu fframwaith ar gyfer mesur cydlyniant cymdeithasol a monitro gwaith y rhaglen cydlyniant cymunedol, gan ystyried gwaith Cyngor Oldham.*

- *Adolygu cyllid ar gyfer y timau cydlyniant, gan gytuno ar yr hyn sydd ei angen y tu hwnt i fis Mawrth 2026.*

- *Galluogi cyfleoedd newydd a gwell ar gyfer rhannu arferion gorau yn genedlaethol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Gallai hyn gynnwys datblygu canllaw arferion gorau."*

### Ymateb: Derbyn

Mae Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol wedi'i sefydlu, dan gadeiryddiaeth annibynnol Gaynor Legall CBE. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer swyddogaethau ysgrifenyddol y Grŵp. Gyda chytundeb y Prif Weinidog, bydd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn cefnogi gwaith y Grŵp i ystyried y dystiolaeth a'r arbenigedd gorau sydd ar gael. Bydd y Grŵp Arbenigol yn cyfarfod gyntaf ym mis Tachwedd ac yn cwrdd yn rheolaidd tan fis Mawrth 2026. Gofynnir i'r Grŵp lunio camau cydlyniant ar gyfer y tymor

canolig a'r tymor hir, gan gynnwys gwell dulliau mesur a monitro, y gall llywodraeth nesaf Cymru eu hystyried.

Yn y tymor byr, gofynnir i'r Grŵp adolygu a chynghori ar yr egwyddorion cydlyniant drafft y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn eu datblygu ar y cyd â thimau cydlyniant rhanbarthol.

Fel rhan o broses gyllidebol ddrafft 2026/27, rydym wedi adolygu'r cyllid ar gyfer y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol wedi cytuno ar estyniad i'r cyllid tan fis Mawrth 2029.

Yn olaf, gofynnir i'r Grŵp Arbenigol ystyried y ffyrdd gorau o rannu ac ymgorffori arferion gorau ar draws sectorau i gefnogi cydlyniant.

## Goblygiadau Ariannol

Bydd modd talu costau darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Arbenigol a datblygu'r camau angenrheidiol o'r cyllidebau presennol. Bydd angen i lywodraeth nesaf Cymru ystyried goblygiadau ariannol y camau gweithredu a awgrymir gan y grŵp.

Cost parhau â'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yw oddeutu £1.63m y flwyddyn, sydd eisoes wedi'i ddyrannu o fewn cyllideb 2026/27.

## Argymhelliad 2

*"Rhaid i Lywodraeth Cymru symud ymlaen yn gyflym a chymryd camau i amddiffyn mannau cymunedol. Mae canfyddiadau'r Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno Hawl y Gymuned i Brynu a dylid ystyried hyn ynghyd ag adroddiad y Comisiwn Asedau Cymunedol a ddisgwylir yn yr hydref. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y camau nesaf erbyn diwedd 2025."*

### Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i archwilio Hawl y Gymuned i Brynu. Mae Bil yn cael ei baratoi i'w ystyried yn nhymor nesaf y Senedd, ar sail argymhellion y Comisiwn Asedau Cymunedol ac yn gydnaws â datblygiadau ar lefel y DU, ynghyd ag argymhelliad y Pwyllgor hwn ac Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025. Ar hyn o bryd, disgwylir i adroddiad y Comisiwn Asedau Cymunedol gael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn.

### Goblygiadau Ariannol

Dim goblygiadau ariannol.

## Argymhelliad 3

*"Dylai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd wrth ymdrin â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth. Dylai hyn gynnwys:*

- *gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol, timau cydlyniant cymunedol a'r trydydd sector, gan sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o'r adnoddau a'r canllawiau sydd ar gael a chydgysylltu negeseuon cyson.*

- *comisiynu Dangosfwrdd HateLab neu wasanaeth monitro tebyg i dynnu sylw at fflachbwyntiau neu bryderon sy'n gofyn am gamau gweithredu neu adnoddau.*

- *archwilio'r gwaith a wnaed gan Gyngor Oldham i fynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth."*

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn parhau â'n gwaith cydweithredol gydag Ofcom, awdurdodau lleol, y trydydd sector ac eraill, i nodi a mynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth yn briodol. Mae hyn yn cynnwys rhannu arferion da gyda thimau cyfathrebu a chyd-greu adnoddau.

Rydym yn cydnabod y gellir gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r adnoddau a'r offer i helpu pobl i adnabod gwybodaeth ffug neu niweidiol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid. Lle bo'n briodol, ac yn unol ag arferion gorau Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth, byddwn yn parhau i ddarparu negeseuon cyson i fynd i'r afael â gwybodaeth ffug, fel yr ydym wedi gwneud mewn perthynas â pholisïau Llywodraeth Cymru gyda'n blog gwirio ffeithiau, Cofnod Cywir.

Rydym yn gwneud ymholiadau ynghylch p'un a all system fonitro ar-lein roi mewnwelediad inni i wella ein hymateb. Byddai angen i unrhyw system gydymffurfio â'n rhwymedigaethau diogelu data a chaffael cyhoeddus, yn ogystal â darparu gwerth am arian i'r cyhoedd.

Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, yr heddlu a'r trydydd sector ar densiynau lleol neu fflachbwyntiau sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yna fwlch ar hyn o bryd o ran darpariaeth wybodaeth gywir o ffynonellau dibynadwy sydd ar gael yn gyflym i'r cyhoedd yng Nghymru ac aelodau o'r nus o'r gymuned.

Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor, mae swyddogion wedi cwrdd â Chyngor Oldham i drafod eu gwaith i fynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth. Byddwn yn cynnal y cysylltiad hwn, a bydd yn cyfrannu i'n gwaith ehangach.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru y pwerau i reoleiddio deunydd niweidiol ar-lein, a all fod yn gamwybodaeth neu'n dwyllwybodaeth. Mae gan Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg y DU, Ofcom, a'r heddluoedd bwerau a chyfrifoldebau sylweddol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

## Goblygiadau Ariannol

Gellid cyflawni rhan helaeth o'r argymhelliad hwn drwy gryfhau a ffurfioli partneriaethau a strwythurau presennol. Fodd bynnag, nid yw cost caffael system fonitro ar-lein yn hysbys ar hyn o bryd. Rydym yn derbyn yr angen i fonitro'n well sut mae camwybodaeth a gwybodaeth niweidiol yn lledaenu, ond bydd angen deall y costau a'r effaith yn llawn cyn dod i benderfyniad terfynol. Byddai angen inni hefyd ystyried costau gweithredu a rheoli'r system yn y tymor hir.

## Argymhelliad 4

*"Mewn ymateb i'r bygythiadau cynyddol i gydlyniant cymdeithasol o ganlyniad i gynnydd safbwyntiau a gweithgareddau eithafol, dylai'r Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol nodi'r heriau y mae hyn yn eu peri i Gymru a nodi'r ffyrdd gorau o fynd i'r afael â gweithgareddau'r asgell dde eithafol a all greu rhaniad ac, yn y pen draw, arwain at aflonyddwch cymunedol a welsom yn Llanelli."*

### Ymateb: Derbyn

Gofynnwyd i'r Grŵp Arbenigol ystyried y ffyrdd gorau o fynd i'r afael â safbwyntiau a gweithgareddau eithafol yng Nghymru, ar sail gwaith dadansoddi gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac arbenigedd aelodau'r Grŵp Arbenigol.

Yn ddiweddar, rydym wedi dyfarnu cyllid i ddau brosiect datbolareiddio ledled Cymru, a fydd yn cael eu gwerthuso i lywio penderfyniadau yn nhymor nesaf y Senedd. Bwriad prosiectau datbolareiddio yw mynd i'r afael â'r tarfu ar gydlyniant cymunedol yn dilyn achos o aflonyddwch, a hefyd bod yn fesur ataliol i osgoi tensiynau cymunedol lle tybir bod lefelau is o gysylltedd cymdeithasol.

Mae *Healing the Divide* yn brosiect sydd wedi'i gynllunio a'i arwain yn lleol yn Llanelli. Rydym yn darparu cyllid, yn manteisio ar arbenigedd o'r tu allan i'r ardal, ac yn grymuso gwaith amlasiantaethol lleol - a hwylusir gan y tîm cydlyniant rhanbarthol - i sbarduno newid cadarnhaol. Mae tri maes gweithredu i'r prosiect hwn: adferiad cymunedol ac atal problemau i'r dyfodol; mapio cymunedol; a hyfforddi dylanwadwyr lleol i fod yn arweinwyr, trosglwyddo dysg a dysgu ehangach.

### Goblygiadau Ariannol

Mae'r prosiectau datbolareiddio cyfredol wedi cael eu hariannu o gyllideb cydlyniant. Mae'r posibiliadau ar gyfer prosiectau tymor newydd y Senedd wedi'u hystyried yng nghyllideb Llywodraeth Cymru 2026-27. Ar hyn o bryd nid yw'r costau posibl sy'n deillio o argymhellion y Grŵp Arbenigol yn hysbys.

# 3. Casgliadau

Nododd yr adroddiad bedwar casgliad. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar yr angen am gydweithio brys ledled y DU; gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol; y dirywiad yn yr ymddiriedaeth mewn sefydliadau cyhoeddus a'r angen am fwy o gyfranogiad cymunedol; a gwell cyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch llety lloches.

O ran casgliad 1, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu fel pedair gwlad, ac yn croesawu trafodaeth gyda Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er ein bod yn pwyso am Grŵp Rhyng-Weinidogol ar hyn, nid yw wedi digwydd eto, yn dilyn newidiadau Gweinidogol ar lefel y DU.

Mae buddsoddi ar ran ein cymunedau ledled Cymru yn allweddol, ond rydym yn parhau i fod yn glir y dylid diddymu pwerau cymorth ariannol, ac nid ydym wedi cytuno i wariant uniongyrchol gan Lywodraeth y DU mewn maes datganoledig, megis drwy Falchder Lle. Rydym eisoes yn buddsoddi mewn cymunedau a threfi ledled Cymru drwy gynlluniau fel cronfa Trawsnewid Trefi a Civic Pride. Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth leol fel nad yw cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer cymunedau a threfi yn dyblygu neu'n gwrthdaro â darpariaeth ddatganoledig.

O ran casgliad 2, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn sgil anfantais economaidd-gymdeithasol, drwy weithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Cyn rhoi'r Ddyletswydd ar waith yng Nghymru yn 2021, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio'n bwrpasol gyda chyrff cyhoeddus a oedd yn dod o fewn cwmpas y Ddyletswydd, a'u cefnogi i baratoi ar ei chyfer, gan ddarparu canllawiau drafft, deunyddiau adnoddau, a gweminarau.

Pan gyflwynwyd y Ddyletswydd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Statudol a chyfres o adnoddau drwy we-dudalen bwrpasol ar y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, gan gynnwys animeiddiad a ffilmiau byrion. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig arweiniad ac adnoddau drwy'r we-dudalen hon ac mae mewn trafodaethau gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â'u hadroddiad.

Fel rheoleiddiwr Deddf Cydraddoldeb 2010, mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bwerau i hyrwyddo'r Ddyletswydd, yn ogystal â chynghori cyrff cyhoeddus ar sut i weithredu'r Ddyletswydd a chyhoeddi ymchwil ar ei chymhwyso. Yn y pen draw, y corff cyhoeddus unigol sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Ddyletswydd, yn amodol ar ei drefniadau ar gyfer dirprwyo swyddogaethau mewnol i gabinetau, i fyrddau, i bwyllgorau neu i swyddogion.

O ran casgliad 3, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn trefnu trafodaethau trawslywodraethol yn rheolaidd i archwilio mentrau i wella iechyd democrataidd. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ffyrdd o gefnogi'r sector cyhoeddus i gynnwys cymunedau.

Mae dyletswyddau ar gynghorau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 i annog pobl i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi strategaethau cyfranogi sy'n cynnwys sut mae'r cyngor yn hyrwyddo ac yn cefnogi ffyrdd i bobl leol rannu eu sylwadau ynghylch penderfyniadau. Nod strategaethau cyfranogi yw ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ddeall sut mae llywodraeth leol yn gweithio; sut mae'n gwneud penderfyniadau; sut y gall pobl leol ddilyn trafodion a chyfrannu eu barn; ac yn bwysicaf oll, sut caiff eu barn ei hystyried.

Rydym yn gweithio gyda chynghorau, drwy CLlLC, i edrych ar effaith y strategaethau hyn ac i weld a oes gwersi i'w rhannu a'u gweithredu er mwyn cynyddu eu heffaith. Mae Deddf 2021 hefyd yn nodi trefniadau i gynghorau adolygu eu perfformiad eu hunain yn rheolaidd drwy broses hunanasesu, yn ogystal â sefydlu proses Asesiad Panel o Berfformiad a gaiff ei rhedeg gan CLlLC – mae'r ddau drefniant yn ystyried eu strategaethau cyfranogi ac yn cael eu harwain gan y sector.

Er mwyn bwrw ymlaen â'n hymrwymiad i leihau'r diffyg democrataidd, rydym yn darparu cyllid o £400,000 y flwyddyn ar gyfer 2025-26 i 2027-28 drwy ein Grant Ymgysylltu â Democratiaeth. Mae hwn yn cefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda'r rhai sydd fel arfer yn cael eu tangynrychioli yn ein democratiaeth i roi'r wybodaeth a'r hyder iddynt gyfranogi'n llawn. Rydym yn edrych ymlaen at gyhoeddi gwaith ymchwil yr ydym wedi'i gomisiynu er mwyn deall sut y gallwn fesur iechyd democrataidd. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi set benodol o fesurau a dangosyddion i olrhain, monitro ac asesu gwahanol elfennau o ddemocratiaeth yng Nghymru. Bydd Gweinidogion yn ystyried canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn pan gaiff ei gyhoeddi yn fuan yn 2026.

Yn gynharach eleni, sefydlwyd y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth mewn ymateb i gyfres o argymhellion gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Cyfarfu am y tro cyntaf ym mis Mai, a'i dasg yw darparu cyngor arbenigol ar gryfhau cyfranogiad democrataidd a chreu cyfleoedd ar gyfer arloesi democrataidd.

Mae aelodaeth y grŵp yn dwyn ynghyd ystod o brofiadau ac arbenigeddau, gan gynnwys arweinwyr mewn democratiaeth, ymgysylltu â'r gymuned a datblygu polisi - pob un ohonynt yn arbenigwyr yn eu meysydd. Mae ei raglen waith yn nodi dull strategol a chydweithredol, a'i nod yw deall lle gall camau ymarferol helpu i adeiladu democratiaeth gryfach, fwy cynhwysol i Gymru.

O ran casgliad 4, rydym yn parhau i archwilio ffyrdd o wella sut rydym yn cyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch pynciau cymhleth sy'n aml yn gallu arwain at densiynau a chamwybodaeth. Mae ein blog, Cofnod Cywir, a'n gwaith gyda thimau cyfathrebu awdurdodau lleol yn ffyrdd o hyrwyddo negeseuon mwy cywir, amserol a chyson ymhlith y cyhoedd. Mae partneriaid yng Nghymru hefyd yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i dreialu ymatebion mwy amserol ganddi hithau i hawliadau sy'n ymwneud â lloches yn ein cymunedau.

Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda chynghorau Cymru pan fo cynigion llety Llywodraeth y DU yn hysbys. Rydym yn gweithio'n galed i annog gwybodaeth amserol, gywir i atal camwybodaeth a'r niwed y gall ei achosi. Dim ond drwy gydweithrediad agos rhwng yr holl gyrff cyhoeddus perthnasol y gellir cyflawni'r amcan hwn.

Rydym yn annog ymgynghori amlasiantaethol ynghylch unrhyw gynigion llety a ddisgwylir, fel y gellir deall yr effeithiau tebygol ar gymunedau, eu hystyried a'u lliniaru'n briodol – neu fel y gellir gwrthod cynigion os yw'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd y niwed yn fwy na'r budd. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn chwarae rôl gymesur a phriodol mewn cynlluniau adsefydlu a lleoli.